



CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ddydd Mercher 18 Mawrth 2020 am 5.00pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cyngor a oedd yn bresennol:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M. Adams	Y Cynghorydd R. Bevan
Y Cynghorydd J. Bonetto	Y Cynghorydd G. Caple
Y Cynghorydd A. Cox	Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd J. Edwards	Y Cynghorydd J. Elliott
Y Cynghorydd S. Evans	Y Cynghorydd M. Fidler Jones
Y Cynghorydd A Fox	Y Cynghorydd E. George
Y Cynghorydd D Grehan	Y Cynghorydd J. Harries
Y Cynghorydd G Hopkins	Y Cynghorydd G. Hughes
Y Cynghorydd J. James	Y Cynghorydd W. Jones
Y Cynghorydd R Lewis	Y Cynghorydd W. Lewis
Y Cynghorydd M Norris	Y Cynghorydd A. Morgan
Y Cynghorydd S. Rees-Owen	Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd E. Stephens	Y Cynghorydd S. Rees
Y Cynghorydd W Treeby	Y Cynghorydd G. Thomas
Y Cynghorydd L Walker	Y Cynghorydd E Webster

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

143 Ymddiheuriadau

Yn dilyn datblygiadau diweddar a'r ansicrwydd parhaus ynglŷn â'r Coronafeirws, cafodd cyfarfod y Cyngor ei gynnal gyda llai o Gynghorwyr yn dilyn trafodaethau rhwng Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ac Arweinwyr y Pleidiau. O ganlyniad i'r trefniadau presenoldeb yma a gafodd eu cytuno, doedd yr Aelodau canlynol ddim yn bresennol:-

S. Belzak	M. Diamond	K. L. Jones
H. Boggis	S. M. Evans	L. Jones
S. A. Bradwick	M. Forey	C. Leyshon
J. Brencher	H. Fychan	K. Morgan
A. Calvert	E. Griffiths	S. Morgans
A. Chapman	M. Griffiths	W. Owen
J. L. Cullwick	G. Holmes	D. Owen-Jones
G. R. Davies	L. Hooper	S. Pickering
J. R. Davies	P. Howe	S. M. Powell
A. Davies-Jones	P. Jarman	A. Roberts
L. De Vet	G. Jones	J. Rosser

G. Stacey
M. Tegg
R. K. Turner
M. Weaver
M. Webber
G. D. G. Williams
D. H. Williams
J. Williams
T. Williams
C. J. Willis
R. Yeo

144 Datganiad o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

145 Cofnodion

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o'r cyfarfodydd a gafodd eu cynnal ar 4 Mawrth 2020 am 4pm a 5pm yn rhai cywir yn amodol ar nodi bod y Cyngorydd Hooper a'r Cyngorydd James wedi dymuno nodi yng Nghofnodion y cyfarfod am 5pm eu bod nhw heb gymryd rhan yn y trafodaethau ynghylch y Rhybudd o Gynnig o ran mynd i'r afael â Storm Dennis, gan eu bod nhw o'r farn nad oedd y mater yn cydymffurfio â Rheolau Sefydlog y Cyngor (Cofnod 142).

146 Hysbysiad

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod mai'r bwriad oedd lleihau nifer yr eitemau ar yr agenda i'w trafod yn rhan o'r ymdrech i gadw'r cyfarfod yn fyr. Felly, cynigwyd gohirio Rheolau Sefydlog y Cyngor er mwyn mynd i'r afael ag adroddiadau'r Swyddogion (gan gynnwys Eitem Brys yn ymwneud â gollyngiad ar gyfer Cyngorwyr mewn perthynas absenoldeb â chaniatâd) yn unig a pheidio â thrafod Cwestiynau'r Aelodau na'r Rhybudd o Gynnig.

PENDERFYNWYD gohirio Rheolau Sefydlog y Cyngor fel a gafodd ei gynnig.

147 Datganiadau

Rhannodd Arweinydd y Cyngor, y Cyngorydd A. Morgan y newyddion diweddaraf mewn perthynas â'r Coronafeirws.

Siaradodd yr Arweinydd am yr amgylchiadau anarferol lle mae nifer llai o Aelodau wedi cael eu gwahodd i fynychu cyfarfod o'r Cyngor, a bod y rheiny sy'n bresennol wedi cael eu gofyn i gadw pellter cymdeithasol a diogel.

Cafodd Aelodau wybod bod y sefyllfa mewn perthynas â'r Coronafeirws wedi dwysáu ers cyfarfod diwethaf y Cyngor lle rhannodd yr Arweinydd y newyddion diweddaraf ynghylch Storm Dennis. Cadarnhaodd yr Arweinydd bod modd iddo rannu'r newyddion canlynol, yn dilyn cyfarfodydd rheolaidd â Phartneriaid ac Arweinwyr Awdurdodau Lleol eraill i drafod effaith gyfredol y Coronafeirws:-

- Mae'r Cyngor wedi datblygu ymateb cyflym i'r Coronafeirws a bydd y Gwasanaethau Rheng Flaen allweddol yn cael eu blaenoriaethu;
- Mae pob ymdrech wedi cael ei wneud i gadw ysgolion ar agor cyhyd ag y

bo modd er mwyn osgoi cyswllt rhwng plant a grwpiau oedran hŷn, risg uchel, gan gynnwys tad-cuod a mam-guod, ac er mwyn osgoi rhoi baich ychwanegol ar weithwyr gofal iechyd sy'n wynebu heriau o ran gofal plant yn ystod y cyfnod yma;

- Penderfynodd Llywodraeth Cymru derfynu darpariaeth addysg statudol ar ôl dydd Gwener, 20 Mawrth 2020;
- Mae'r Cyngor yn gweithio'n gyflym i sicrhau bod yr holl ddisgyblion cymwys yn parhau i dderbyn Prydau Ysgol Am Ddim, efallai ar ffurf pecyn cinio er mwyn osgoi pobl yn ymgynnull am gyfnodau hir;
- Rydyn ni hefyd yn ceisio trefniadau gofal plant ar gyfer y gweithwyr allweddol hynny gan ddefnyddio safleoedd ysgol;
- Ar hyn o bryd, mae nifer o weithwyr y Cyngor yn gweithio gartref o ganlyniad i hunan-ynysu gwirfoddol neu ar ôl rhoi gwybod eu bod nhw yn y categori risg uchel (yn feichiog neu'n hŷn na 70 oed);
- Dim ond chwech o lyfrgelloedd y Cyngor sy'n parhau i fod ar agor, ac mae'n debygol y byddan nhw'n gweithredu fel canolfannau cymunedol ble bydd modd cydlynu ymateb i argyfwng;
- Bydd y Cyngor yn ystyried lleihau'r ddarpariaeth mewn rhai meysydd gwasanaeth yn hytrach na chau'r gwasanaeth yn gyfan gwbl, ond bydd hyn yn dibynnu ar nifer yr adnoddau'n lleihau er mwyn i staff hunan-ynysu;
- Bydd Parc Gwledig Cwm Dâr a Chanolfan Oriau Dydd Y Gilfach Goch yn cau cyn bo hir hyd y gellir rhagweld. Bydd hyn yn rhyddhau adnoddau staff gwerthfawr;
- Fydd y Cyngor ddim yn cymryd unrhyw geisiadau pellach am gasglu eitemau mawr;
- Mae'n bosibl y bydd angen cau parciau a bydd trefniadau casglu sbwriel yn cael eu heffeithio wrth i ni fynd i'r afael â materion sy'n fwy dybryd;
- Mae pob llawdriniaeth ddewisol wedi cael ei ganslo yn rhan o ymdrech i ryddhau gwelyau ar gyfer y rheiny sydd angen sylw meddygol;
- Mae cyflenwadau bwyd yn parhau i gael eu dosbarthu'n llwyddiannau, a byddwn ni'n gwneud trefniadau yn y dyfodol i sicrhau bod darpariaethau hanfodol yn cyrraedd y grwpiau hynny sy'n flaenoriaeth, megis yr henoed;
- Bydd y newyddion diweddaraf yn cael eu rhannu ag Aelodau Etholedig yn rheolaidd, gan gynnwys dolenni lechyd Cyhoeddus Cymru/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Bwrdd lechyd Cwm Taf Morgannwg;
- Mae'n debygol mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Cyngor hyd y gellir rhagweld.

Roedd pob Plaid Gwleidyddol wedi mynegi'i chefnogaeth ar gyfer Arweinydd y Cyngor wrth iddo barhau i ymdrechu i roi'r mesurau priodol ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r Coronafeirws a rhoi cymorth i staff a thrigolion lleol.

I grynhoi, cadarnhaodd yr Arweinydd y bydd penderfyniadau'n parhau i gael eu gwneud yn unol â chynlluniau dirprwyo swyddogion ac aelodau a'r gweithdrefnau ar gyfer penderfyniadau brys. Byddan nhw'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn ôl yr arfer.

148 Rhaglen Waith y Cyngor

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod bod y cyfarfod o'r Cyngor a gafodd ei amserlennu ar gyfer 1

Ebrill 2020 wedi cael ei ganslo.

149 Strategaeth Rheoli'r Trysorlys gan gynnwys y Strategaeth Fuddsoddi, Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys a'r Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2020/21

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol ei adroddiad sy'n pennu'r canlynol ar gyfer y Cyngor:-

1. Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21;
2. Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2020/21;
3. Dangosyddion y Trysorlys ar gyfer 2019/20 (gwirioneddol hyd yma) a 2020/21, 2021/22 a 2022/23; a
4. Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw

Yn dilyn trafodaeth am yr adroddiad **PENDERFYNWYD** cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi, Dangosyddion y Trysorlys, a'r Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw fel y nodir yn yr adroddiad.

150 Adroddiad Strategaeth Gyfalaf 2020/21 gan gynnwys Dangosyddion Darbodus

Cyflwynwyd adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol sy'n rhoi trosolwg o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gwaith rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, ynghyd â throsolwg o'r risg gysylltiedig, sut y caiff hynny ei reoli a'r goblygiadau o ran cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth am yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf gan gynnwys y Dangosyddion Darbodus.

151 Materion Brys - Gollyngiad ar gyfer Absenoldeb â Chaniatâd

Rhannodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu amlinelliaid o'r trefniadau ar gyfer absenoldeb â chaniatâd yn unol ag Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Ar ôl ystyried cyfarwyddyd Llywodraeth San Steffan, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â firws Covid-19, mae'r rhan fwyaf o bwyllgorau'r cyngor sy'n gofyn am bresenoldeb y Cynghorwyr wedi cael eu canslo. O ystyried yr uchod, y cynnig yw rhoi gollyngiad i unrhyw Gynghorydd (sydd wedi'i restru yn Atodiad A) sydd ddim yn gallu mynychu cyfarfod y Cyngor am gyfnod o 6 mis yn olynol oherwydd y Coronafeirws (Covid-19), yn unol ag Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Yn olaf, er bod y trefniadau uchod yn caniatáu i Gynghorwyr fod yn absennol oherwydd y cyngor mewn perthynas â'r Coronafeirws (COVID-19), esboniodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu y byddai trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i fodloni gofynion cworwm gyda'r Arweinwyr Grŵp perthnasol pe bai cyfarfod yn cael ei gynnal. **Ar ôl trafod yr adroddiad, PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r angen ar hyn o bryd i ganslo pob cyfarfod sydd ddim yn rhai brys, yn sgil cyfarwyddyd mewn perthynas â firws Covid-19 a gafodd ei gyhoeddi gan Lywodraeth San Steffan, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru; a

2. Chytuno y bydd gollyngiad yn cael ei roi i unrhyw Gyngorydd (sydd wedi'i restru yn Atodiad A) sydd ddim yn gallu mynychu cyfarfod y Cyngor am gyfnod o 6 mis yn olynol oherwydd y Coronafeirws (Covid-19), yn unol ag Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:40pm

**Y Cyngorydd S Powderhill
Cadeirydd**